CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL.

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 7fed o Dachwedd 2017 yn yr Hen Ysgol Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol

Cadeirydd: Robin Phillips

Cynghorwyr: Enid Cole, Ceirwyn John, Ieuan Davies, Llinos Davies, Sarah –Jane Absalom, Lon Davies

Cynghorydd Sir: Cyng Cris Tomos

Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd:

Croesawodd y cadeirydd yr aelodau I'r cyfarfod. Estynnwyd llongyfarchiadau i Clwb Ffermwyr Ifanc Eglwyswrw am ei llwyddiant yn yr Eisteddfod yn ddiweddar. Diolchodd Robin hefyd i Ceirwyn am cymeryd at y gadair yn cyfarfod mis Hydref.

Ymddiheiriadau:- Arwel Evans

Cofnodion 03.10.17

Cynigodd Lon Davies ac eiliodd Enid Cole fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion

63. Fan Post yn Brynberian – Cadarnhad fod y fan post yn dechrau yn Brynberian dydd Mawrth 28ain o Rhagfyr yn Maes Parcio y Capel.

64. Coeden Nadolig Y Pentref – Yn dilyn trafodaeth a phryder ynglyn a diogelwch a lle i rhoi Coeden fe fydd y clerc yn edrych i fewn i Yswiriant ac asesiad risg cyn bwrw ymlaen ymhellach.

65. Deffibrilitiwr – Pleser roedd gan Sarah Jane cyhoeddi bod y Deffibrilitiwr wedi ei osod ac bod y gwaith trydan wedi gorffen. Clerc i ysgriennu llythyr o ddiolch i Peter Clarke, Hwlffordd am ei waith trydanol dy dal.

Gohebiaeth

66. Cyfanswm yn y Banc 25.10.17 - £3,189.66

67. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais J. L. Rees, Tafarn Bwlch, Brynberian gosod llwybr a mynediad anabl ac ardal gwylio pob tywydd yn gysylltiedig â'r ganolfan ymwelwyr. Cadarnhad fod y cais wedi dderbyn

68. Llythyr wrth Pwyllgor Y Pentref –Llythyr ynglyn a symud yr hysbysfwrdd o'r maes parcio i lle arall mwy addas. Cynigodd Enid Cole ac eiliodd Ieuan Davies i adael yr hysbysfwrdd yn y fan ar lle. Os fydd Pwyllgor Y Pentref eisiau hysbysfwrdd ychwanegol fe fydd y Cyngor Cymuned yn hapus i gyfrannu os fydd eisiau. Clerc i cysylltu gyda Pwyllgor Y Pentref.

Unrhyw Fater Arall

69. Ebost wrth Marie Curse Sir Benfro yn gofyn am cefnogaeth ariannol. Cynigodd Enid Cole ac eiliodd Ceirwyn John cyfraniad o £25.00

70. Sul Y Cofio – Fe fydd gwasanaeth Sul Y Cofio am 10.30y.b. 12fed o Dachwedd yn Eglwys St. Cristiolus. Fe fydd y Cyng. Robin Phillips yn rhoi torch ar rhan y Cyngor Cymuned.

71. Cinio Pensiynwyr Brynberian – Cyn trafod fe wnaeth Lon Davies datgan diddordeb yn y mater. Fe penderfynnwyd yn ystod y cyfarfod i cyfrannu at gost y cinio. Cynigodd Ieuan Davies ac eiliodd Enid Cole cyfraniad o £100.00

72. Fe ddwedodd Enid Cole ar rhan aelod or cyhoedd ei bod am ddiolch I Lyn a Muriel Davies, Bryn Y Wawr a Dylan a Helen Evans, Arosfa am y gwaith o glanhau a tacluso tu allan I Ganolfan Cymunedol Eglwyswrw a'r Ysgol Gynradd cyn angladd Colin Rees yn ddiweddar.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 2il o Ionawr am 8.00y.h.

Terfynwyd y Cyfarfod am 9.10y.h.